OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1635 (Cy.177)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*24 Mehefin 2003*
Yn dod i rym	- -	*30 Mehefin 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(2), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), gan ei fod wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi ymgynghori fel y mae'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 30 Mehefin 2003 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliad 104/2000" ("*Regulation 104/2000*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaethu(**4**));

ystyr "Rheoliad 2065/2001" ("*Regulation 2065/2001*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ynghylch hysbysu defnyddwyr ynglyn â chynhyrchion pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaethu(**5**);

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 26(3) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gan adran 40(4) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 ac Atodlen 6 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a fu gynt yn arferadwy gan "yr Ysgrifennydd Gwladol" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) o'i ddarllen gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1; sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, sy'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac sy'n gosod gweithdrefnau ym materion diogelwch bwyd.

(**4**) OJ Rhif L17, 21.1.2000, t.22.

(**5**) OJ Rhif L278, 23.10.2001, t.6.

ac mae i unrhyw ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yn Rheoliad 104/2000 neu Reoliad 2065/2001 yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Rheoliadau hynny.

Tramgwyddau sy'n ymwneud â hysbysu defnyddwyr

3.—(1) Bydd unrhyw berson sydd, yn groes i Erthygl 4.1 o Reoliad 104/2000 (gwybodaeth i ddefnyddwyr) o'i darllen ynghyd â rheoliad 2065/2001, yn cynnig ar gyfer eu hadwerthu i'r defnyddiwr terfynol unrhyw un o'r cynhyrchion y mae'r Erthygl honno yn gymwys iddynt yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Bydd person sydd yn methu â chydymffurfio ag Erthygl 8 o Reoliad 2065/2001 (olrhain a rheoli) yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Rhestrau o ddynodiadau masnachol

4.—(1) O ran Cymru, y rhestr o ddynodiadau masnachol y mae'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig ei llunio a'i chyhoeddi o dan Erthygl 4(2) o Reoliad 104/2000 yw'r un a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, ac yn unol â hynny, y dynodiadau masnachol a nodir yn yr Atodlen honno yw'r enwau a ragnodwyd gan y gyfraith at ddibenion rheoliadau 6(1), 7 ac 8(a) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**6**).

(2) Mewn perthynas â rhywogaeth a gynhwysir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac mewn rhestr a gyhoeddwyd yn Saesneg o dan Erthygl 4(2) o Reoliad 104/2000 yn effeithiol mewn Aelod-wladwriaeth arall neu mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, bydd y dynodiad masnachol ar gyfer y rhywogaeth honno yn y rhestr sy'n effeithiol yn yr Aelod-wladwriaeth arall honno neu'r rhan honno o'r Deyrnas Unedig yn un amgen i'r dynodiad masnachol ar gyfer y rhywogaeth honno a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Hepgor cyfeirio at y dull cynhyrchu

5. Yn yr achos a ddisgrifir yn erthygl 4.2 o Reoliad 2065/2001 (sefyllfa lle mae'n amlwg oddi wrth y dynodiad masnachol a chylch yr haldiad fod y rhywogaeth yn cael ei dal yn y môr) ni fydd yn groes i Erthygl 4.1 o Reoliad 104/2000 i gynnig ar gyfer ei adwerthu i'r defnyddiwr terfynol gynnyrch pysgodfeydd y mae'r Erthygl honno yn gymwys iddo heb fod y cynnyrch wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r dull cynhyrchu.

Meintiau bach o gynhyrchion

6.—(1) At ddibenion Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 o'i darllen ynghyd ag Erthygl 7 o Reoliad 2065/2001, rhaid i'r meintiau bach o gynhyrchion y caniateir eu gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr fod yn gynhyrchion na fydd eu gwerth yn uwch nag 20 Ewro am bob pryniant.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, bernir bod y cyfeiriad at 20 Ewro yn gyfeiriad at werth cyfatebol y nifer hwnnw o Ewros mewn sterling, wedi'u trosi drwy gyfeirio at y gyfradd drosi a gyhoeddir yn flynyddol ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis Medi blaenorol yng nghyfres C o Gyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd neu, os na chyhoeddir cyfradd ynddo ar y diwrnod hwnnw, y gyfradd a gyhoeddir ynddo gyntaf ar ôl hynny.

(**6**) O.S. 1996/1499; mewnosodwyd rheoliad 6(4) (sy'n diffinio "prescribed by law" ("a ragnodwyd gan y gyfraith") at ddibenion rheoliadau 6(1), 7 ac 8(a)) gan O.S.1998/1398.

Gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â chylch yr haldiad

7. Caiff y mynegiad o gylch yr haldiad sy'n ofynnol o dan Erthygl 4(1)(c) o Reoliad 104/2000, os yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 5(1)(c) o Reoliad 2065/2001 yn gymwys, fynegi'r amryw Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd y cafodd y cynnyrch ei ffermio ynddynt.

Dynodiadau Masnachol Dros Dro

8.—(1) At ddibenion Erthygl 2 o Reoliad 2065/2001 (dynodiadau masnachol dros dro), yr Asiantaeth Safonau Bwyd ("yr Asiantaeth") fydd yr awdurdod cymwys.

(2) Rhaid i'r Asiantaeth lunio a chyhoeddi rhestr o ddynodiadau masnachol dros dro yn unol â'r Erthygl 2 a enwyd.

Gorfodi

9. Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

Cymhwyso amryw ddarpariaethau'r Ddeddf

10. Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad y dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran o'r Ddeddf yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn ac at y darpariaethau hynny yn Rheoliad 104/2000 a Rheoliad 2065/2001 y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy —

(a) adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y bo'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15;

(ch) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad);

(dd) adran 33(1) (rhwystro swyddogion etc.);

(e) adran 33(2) gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1) (b) above" yn gyfeiriad at urhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y cymhwysir hi gan is-baragraff (dd) uchod;

(f) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y cymhwysir hi gan is-baragraff (dd) uchod;

(ff) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y cymhwysir hi gan is-baragraff (e) uchod;

(g) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

Dirymu

11. Dirymir paragraff 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (enwau rhagnodedig pysgod a physgod cregyn) i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

D. Elis-Thomas
24 Mehefin 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 4

DYNODIADAU MASNACHOL

1.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) o'r paragraff hwn, y dynodiad masnachol ar gyfer unrhyw rywogaeth o bysgod a bennir yng ngholofn 2 o'r Tabl canlynol fydd enw a bennir ar gyfer y rhywogaeth honno yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1 o'r Tabl a enwyd.

(2) Caniateir defnyddio enw arferol ar gyfer unrhyw rywogaeth o bysgod sydd wedi cael ei mygu neu gael ei rhoi drwy broses debyg, onid yw enw'r rhywogaeth yng ngholofn 2 o'r Tabl canlynol yn cael ei ddilyn gan seren. Mewn achosion o'r fath rhaid i'r enw a ddefnyddir ar gyfer y bwyd pan gaiff y pysgod eu mygu fod naill ai —

(a) yn enw a bennir ar gyfer y rhywogaeth honno yng ngholofn 1 o'r Tabl a enwyd gyda'r gair "smoked" o'i flaen; neu

(b) ac eithrio yn achos Salmo Salar (L.), "smoked Pacific salmon".

(3) Ni fydd is-baragraff (1) o'r paragraff hwn, o'i ddarllen ynghyd â'r Tabl canlynol, yn gymwys i bysgod a reoleiddir gan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2136/89(**8**) sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer sardîns wedi'u preserfio, neu Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1536/92(**9**) sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer tiwna a bonito wedi'u preserfio.

(i) Column 1 Commercial designation	*(ii) Column 2* Species of fish
(3) Sea Fish	
Anchovy	All species of the family *Engraulidae*
Barracuda	All species of *Sphyraena*
Barramundi	(a) (a) *Lates calcarifer*
Bass *or* Sea bass	*Dicentrarchus labrax (L.)*
Japanese sea bass	*Lateolabrax japonicus*
Spotted sea bass	*Dicentrarchus punctatus*
Southern rock bass	*Paralabrax callaensis*
Bigeye	All species of *Priacanthus*
Bluefish *or* Tailor	*Pomatomus saltatrix*
Bogue	*Boops boops*
Bonito	All species of *Sarda* All species of *Euthynnus,* with the exception of *Euthynnus (Katsuwonus) pelamis* All species of *Auxis*
Brill	*Scophthalmus rhombus* (L.)
Brisling	*Sprattus sprattus* (L.) when canned
Catfish *or* Rockfish *or* Wolffish	All species of *Anarhichas*

(**8**) OJ Rhif L212, 22.7.89, t.79.
(**9**) OJ Rhif L163, 17.6.92, t.1.